



Sut i ddweud eich dweud

Cais Kronospan Limited i amrywio trwydded amgylcheddol

Rydym wrthi'n asesu cais i amrywio trwydded EPR/BW9999IG gan Kronospan Limited. Mae'r cais ar gyfer cynnwys y gweithgareddau canlynol sy'n bodoli eisoes yn nhrwydded amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y cyfleuster a reoleiddir: cynhyrchu byrddau gronynnau a byrddau ffibrau dwysedd canolig, dau safle biomas, melin lifio, a rhes gynhyrchu ar gyfer lloriau laminedig. Mae'r rhan hon o'r cais yn ofynnol er mwyn dod â'r safle o dan reolaeth reoleiddiol un rheoleidiwr, sef Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae cynnig ar gyfer rhes gynhyrchu newydd ar gyfer byrddau haenau cyfeiriedig ar y safle yn rhan o'r cais hefyd.

Rydym am wneud y penderfyniad gorau wrth drwyddedu. Mae gwrando ar safbwyntiau pobl eraill yn ein helpu i ystyried pryderon na fyddem yn ymwybodol ohonynt fel arall. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymatebion a dderbyniwn gan eu bod yn ein helpu i sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir gennym yn briodol a chadarn.

Agorodd ein hymgyngoriad ar 5 Medi 2018 a bydd yn cau ar 19 Hydref 2018. Gellir lawrlwytho manylion cais Kronospan Limited drwy anfon cais at permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein rôl yw archwilio cais Kronospan Limited i amrywio trwydded amgylcheddol EPR/BW9999IG a phenderfynu a ddylem gyflwyno'r amrywiad neu wrthod y cais.

Os gall busnes brofi bod y safle'n bodloni holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, technolegol ac iechyd cyfreithiau'r Deyrnas Unedig ac Ewrop, mae gorfodaeth gyfreithiol arnom i roi trwydded.

Diffinnir y camau y byddwn yn eu dilyn wrth benderfynu rhoi neu wrthod cais i amrywio gan ofynion cyfreithiol. Mae'n ofynnol i ni gyfiawnhau'r penderfyniad hwn o fewn terfynau y cyfyngiadau cyfreithiol hyn. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol i ni wrthod trwydded ar sail gwrthwynebiad lleol i'r gweithgaredd gael ei gyflawni ar y safle hwn yn unig. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol sy'n dod i'r amlwg trwy'r ymgynghoriad hwn.

Byddwn ond yn cyhoeddi amrywiaeth i drwydded EPR/BW9999IG os ydym yn credu na fydd llygredd sylweddol yn cael ei achosi a bod gan y gweithredwr y gallu i fodloni amodau'r drwydded. Bydd unrhyw amrywiad y gallem ei gyhoeddi yn cynnwys amodau priodol i amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd.

I'ch helpu, rydym wedi nodi'r prif faterion y gallwn ac na allwn eu hystyried isod.

Mae'r materion y gallwn ystyried sylwadau arnyn nhw yn cynnwys:

- Rheolaeth weithredol gyffredinol o'r cyfleuster
- Trin a storio gwastraff pren sy'n dod i mewn
- Defnyddio deunyddiau crai, dŵr ac ynni
- Rheoli aroglau, sŵn, ysbwriel a llwch
- Rheoli allyriadau i'r amgylchedd hyd at derfynau a ganiateir
- Monitro prosesau'r safle yn unol â gweithdrefnau y cytunir arnynt
- Monitro allyriadau i'r amgylchedd yn unol â safonau y cytunir arnynt
- Rheoli'r gwaith o drin a storio gwastraff gweddilliol o'r broses
- Effeithiau posibl ar iechyd a'r amgylchedd lleol
- Unrhyw ffactorau lleol perthnasol yr ydych yn credu nad yw Kronospan Limited wedi'u hystyried yn ei gais i amrywio trwydded

Mae'r materion na allwn ystyried sylwadau arnyn nhw yn cynnwys:

- Lleoliadau a maint gwahanol i'r cyfleuster hwn
- Oriau gweithredu
- Cludo gwastraff pren a deunyddiau craidd i'r safle ac oddi yno

- Faint o ddeunydd craidd a ddefnyddir ac o ble y mae'n dod
- A ddylai safle gael dynodiad ffurfiol dan ddeddfwriaeth cadwraeth

Mae'r materion hyn y tu allan i gwmpas ein rheoliadau amgylcheddol. Os dymunwch gyflwyno sylwadau ar y materion hyn, dylech eu hanfon at Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Ymgynghori â sefydliadau eraill

Rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau a chyrrff arbenigol i geisio eu barn ar amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Er enghraifft, rydym wedi gofyn i'r sefydliadau iechyd roi sylwadau ynghylch effeithiau iechyd posibl cais Kronospan Limited. Byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw i roi sylw i bryderon y cyhoedd ac yn ystyried eu cyngor arbenigol wrth wneud ein penderfyniad.

Y camau nesaf

Byddwn yn edrych ar unrhyw sylwadau perthnasol wrth i ni gynnal ein hasesiad i benderfynu a ydym am gyflwyno neu wrthod cais i amrywio trwydded. Rydym yn galw'r broses o benderfynu a ydym am gyflwyno amrywiad i drwydded ai peidio a phennu amodau'r drwydded yn 'benderfyniad'.

Rydym yn argymhell i chi gyflwyno unrhyw sylwadau cyn gynted â phosibl, er mwyn i ni roi'r ystyriaeth orau iddynt yn ystod ein hasesiad parhaus cyn y dyddiad hwnnw.

Byddwn wedyn yn penderfynu a ydym am gyflwyno amrywiad i drwydded ai peidio ac yn cynhyrchu dogfen benderfynu i esbonio sut rydym wedi gwneud ein penderfyniad.

Os ydym yn penderfynu cymeradwyo'r cais, byddwn yn creu trwydded amgylcheddol sydd wedi'i hamrywio ac un gyfunol ac yn hysbysebu'r amodau drafft a'r penderfyniad ar ein gwefan am 28 diwrnod ychwanegol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/permit-applications-consultations-and-decisions?lang=cy>

Anfonwch eich sylwadau atom ni

Wrth baratoi eich sylwadau, efallai y dymunwch ystyried y cwestiynau canlynol. Fe'u cynlluniwyd i'n helpu i ddeall eich pryderon ac i ddynodi materion perthnasol y bydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar y cais hwn i amrywio trwydded.

A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch cais Kronospan Limited? Er enghraifft:

1. Sut y mae'n bwriadu atal neu leihau llygredd (gan gynnwys sŵn, aroglau a llwch)?
2. Sut y mae'n dangos na fydd ei gynigion yn achosi niwed i iechyd pobl?
3. Sut y mae'n dangos na fydd ei gynigion yn achosi niwed i'r amgylchedd?
4. A oes unrhyw ffactorau lleol, e.e. nodweddion amgylcheddol sensitif lleol, nad yw Kronospan Limited wedi eu hystyried yn y cais i amrywio trwydded yr ydych o'r farn y dylem eu hystyried?

Dywedwch wrthym hefyd am unrhyw wybodaeth arall yr ydych yn meddwl y dylem ei hystyried wrth wneud ein penderfyniad.

Os ydych am wneud unrhyw sylwadau ar y cais, anfonwch nhw (gan ddyfynnu rhif cyfeirnod y cais PAN-002755) at Arweinydd y Tîm Trwyddedu Diwydiant a Reoleiddir, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP, neu rhowch nhw mewn e-bost at marinelicensing@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Dogfen gyffredinol yw hon a gafodd ei hysgrifennu i'ch helpu i ddeall ein proses o benderfynu ar drwyddedau. Ni fwriedir iddi gael ei defnyddio fel cyngor ar faterion penodol. Dylech geisio cyngor penodol cyn cymryd unrhyw gamau yn seiliedig ar y wybodaeth yn y ddogfen hon.